

## DAEAR WEDI'I GLANHAU—'WNEWCH CHI FYW I WELD HYNNY?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Dangoswch fod yn rhaid i'r rheiny sydd yn dymuno mwynhau daear wedi'i glanhau ymdrechu i fod yn lân yn gorfforol, yn feddylol, ac yn foesol. Helpwch bawb i archwilio'u hagweddau a'u gweithredoedd. 'Ydi'r rhain yn adlewyrchu safonau glân Duw yn mhob agwedd o fywyd? Anogwch bawb i fyw mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn credu y bydd daear wedi'i glanhau yma'n fuan

### **MAE GLENDID YN APELIO—ATOM NI AC AT DDUW** (4 mun.)

Pleser yw gweld cartrefi cymen mewn lleoliadau hyfryd

Hyn yn arbennig o wir os mai budreddi a llygredd yw'r hyn a welwn fel arfer

'Ydych chi wedi sylwi ar duedd i gyfeiriad rhagor o aflendid, llygredd? (g90 5/8 4-9)

Pan fo mwyafrif poblogaeth cymuned yn aflan oherwydd hyfforddiant sâl, rhwystredigaeth, neu anobaith, mae hyn yn anghefnogi ymdrechion eraill i fod yn lân

Onid ydi lleoliadau hyfryd, glân, hefyd yn ein hysgogi ni i fod yn lân?

Gallwn fod yn sicr fod y Creawdwr, Duw Jehofah, yn gwerthfawrogi daear lân

Gwnaeth y ddaear ac iddi harddwch glân, newydd, anghyffwrdd

Sefydldd brosesau naturiol a gynlluniwyd i gadw'r ddaear yn lân (g90 5/8 10-11)

Bydd y gyfundrefn newydd addawedig yn gyflawn, yn lân, yn drefnus (2Pedr 3:13)

Mae aflendid ac anhrefn yn groes i ffyrdd Jehofah a byddent yn ffynhonnell annifyrrwech (Lef 19:2)

### **ER MWYN BOD YN BAROD AR GYFER DAEAR LÂN, YMDRECHWCH I SICRHAU GLENDID 'NAWR** (14 mun.)

Gan ddysgu o ffyrdd Duw, mae angen i Gristnogion weithio ar lendid 'nawr

Gwnaeth y deddfau a roddwyd i Israel nhw'n bobl arbennig o ran glendid corfforol, a'u helpu i'w hamddiffyn nhw rhag afiechyd (ce 204-5; it-1 478; w89 6/1 16)

Defnyddiodd Iesu egwyddor glendid (Mth 23:25, 26)

Gall goresgyn arferion, hyfforddiant, amgylchoedd y gorffennol olygu llawer o waith (g88 9/22 9-11)

Mae glendid corfforol yn rhywbeth o bwys i'r holl deulu

Mae gofyn i'r holl deulu, gan gynnwys y plant, weithio ynghyd gyda glendid mewn golwg

Mae'n cynnwys cadw'r corff a dillad yn lân (w89 6/1 16-17; g88 9/22 8-9; g71 7/22 25-6)

Dylai rhieni gychwyn dysgu plant ynglŷn â gwerth a phwysigrwydd cadw'n gorfforol lân yn gynnar

Ynglŷn â'r cartref, dengys y Beibl fod cyfrifoldeb gan y gwagedd yn arbennig (Tit 2:4, 5)

Fodd bynnag, nid peth cariadus fyddai i'r gŵr a'r plant fod yn anniben, yn gorfodi'r wraig i lanhau ar eu hól o hyd (w89 6/1 17)

'Dyw'r Beibl ddim yn gofyn i wragedd fod yn eithafol ynglŷn â glanhau; mae angen golygwedd gytbwys ynglŷn â'i bwysigrwydd Gall eu llwyddiant neu aflwyddiant adlewyrchu ar Air Duw

Dylid hefyd gadw ceir yn dwt a glân y tu mewn a'r tu allan (w89 6/1 18)

Mae gofal yn y pethau hyn yn ffordd o ddangos ein hawydd i fyw ar ddaear wedi'i glanhau

Bydd eraill yn sylwi (efallai na fydd ein cartref a'n dillad yn ddrudfawr ond byddant yn lân, yn dwt) ac mae'n cysylltu â'n gobeithion a'r hyn a gredwn (g86 12/22 22-3)

Byddwn yn datblygu patrwm glendid fydd yn ffitio'r byd newydd

### **DANGOS EIN DYHEAD I FYW AR DDAEAR LÂN** (16 mun.)

'Dyw amodau ffisegol delfrydol ddim ohonynt eu hunain yn sicrhau'r byd newydd addawedig

Mae rhai pobl yn byw mewn lleoliad hyfryd ond yn cael eu poeni gan ddiffyg ymddiried, ofn torcyfraith, unigedd, iselder

Trigai Lot mewn man hyfryd (Gen 13:10)

Ond 'roedd drygioni moesol ei gymdogion yn Sodom yn ei boenydio (Lc 17:28, 29; 2Pedr 2:7, 8)

Tristeir ninnau yn yr un modd gan ddrygioni moesol cynyddol heddiw

Fe fydd y "ddaear newydd" hefyd yn foesol lân a heddychlon (2Pedr 3:13; g84 10/22 9-11)

Mae'r Beibl yn addo symud ymaith "nefoedd" a "daear" yr oes hon (2Pedr 3:7, 10; sl 297-306; rs 113-15)

Rhaid fydd difa "nefoedd" llywodraethol neu gyfundrefnau rheoli

Ei "helfennau" yw awyrgylch bydol, ysbryd pendant aflan (wt 175-7)

A gytunwch nad yw'r ysbryd aflan cyfoes hwn mewn cytgord â Duw?

Bydd y "ddaear" symbolaidd, cymdeithas ddynol ddrygionus "yn peidio â bod"

Bydd Jehofah yn dileu pob twyll megis trwy dân

Bydd yn dadlennu drygioni cymdeithas ddynol annuwiol, gan ddangos ei bod yn haeddu'i llwyr ddifa (rs 114-15)

Gan nad yw mewn harmoni gyda'r Duw glân, rhaid ei dileu

Mae "popeth sydd ynnddi," megis sefydliadau a chyfundrefnau, yn aml yn gweithredu gan achosi difrod i'r amgylchedd, a "dinistrio'r ddaear" (Dat 11:18; go 181)

'Ydyn ni'n dangos drwy gadw ar wahan i'r byd ein bod yn dymuno gweld disodli'r gyfundrefn bresennol? (In 17:16; w80 6/15 5-10)

'Ydyn ni'n foesol ac yn feddylol lân, neu a ydi ysbryd aflan y byd yn ei amlygu ei hun yn ein hymddygiad a'n ffordd o feddwl?

Mae angen mwy na dim ond osgoi anfoesoldeb, fel y dengys y Gyfraith (Dangoswch drwy ystyried Lefiticus 19:2, 3, 11-18, 29, 33-36; w89 6/1 12-13; w87 11/1 10-20; w78 8/1 30-1)

Llyn mesur o'n dymuniad i weld disodli'r nefoedd a'r ddaear bresennol yw a ydyn ni'n dal i gael pleser (hyd yn oed yn achlysurol) yn eu haflendid

'Ydi'r agwedd na fydd ychydig aflendid ddim yn brifo gennym ni? (w89 6/1 16)

Beth am jôcs di-chwaeth, cerddoriaeth a dawnsio sy'n rhywiol awgrymog, a chabled?d?

Pam dylem ni ganiatau i'r byd ddeddfu inni ar yr hyn y gellir ei fwynhau, ei awyddu, a'r hyn sydd ganmoladwy?

A all eraill weld oddi wrth ein hagwedd a'n hymddygiad ein bod yn wirioneddol gredu fod y nefoedd a'r ddaear bresennol dan farn ac y'u disodlir nhw gyda hyn?

Os ydym ni'n dymuno byd newydd, glân, heddychlun, pa fath o berthynas ydym ni'n ei meithrin gyda'n teulu a chyda'r brodyr?

'Rydym yn glynu wrth ysbryd y byd os parhawn i fod yn feirniadol ac eiddigeddus, parhau i wrando ar fân-siarad a'i ledaenu, gweld bai, a busnesa mewn pethau na wnelont ddim â ni

'Fedrwn ni ddweud o ddifri' ein bod yn gweithio i'n glanhau ein hunain oddi wrth ysbryd y byd?

I'r graddau yr ydym yn newid, y dangoswn ein bod yn dymuno byw ar ddaear lân (Iago 4:1-4, 11)

### **GWEITHIWC H I FOD YN GYMERADWY AC YN BAROD AR GYFER DAEAR WEDI'I GLANHAU** (11 mun.)

Os ydym yn wirioneddol ddymuno daear wedi'i glanhau, rhaid dangos hynny 'nawr, nid yn ddiweddarach (Darllen 2 Pedr 3:11)

Bydd ymarweddiad duwiol yn ein cadw'n agos at ein Duw glân

Dylai'n bywyd beunyddiol ddangos ein hymroddiad i Jehofah a'n bod yn canlyn yn ei ffyrdd (Act 9:36; 1Tim 5:4)

Parhewch yn frwdfrydig i annog eraill i ddysgu am y ddaear wedi'i glanhau

Byddwch yn barod ar gyfer dydd Jehofah; gallai ddod unrhyw amser (2Pedr 3:12, 17, 18; sl 309)

Hawdd cael ein llygad-dynnu gan bethau y bydd person yn barnu mai dim ond dros dro y byddant yn ei arafu neu yn ei rwystro rhag rhoi ei oll

Gallwn ofyn i ni'n hunain: Pe deuai dydd Jehofah yn fuan iawn, 'fyddwn i'n fodlon â'r hyn 'rwyf wedi bod yn ei wneud?

Addoli Jehofah 'ddylai ein hamcan fod, bod yn gymeradwy ganddo a'n cael mewn tangnefedd ag ef (2Pedr 3:14)

Buddiol i bawb ohonom fyddai gwneud amser i adolygu'n sefyllfa

'Oes manau lle dylid gwella glendid corfforol?

'Ydym ni yn adlewyrchu ysbryd aflan y byd mewn unrhyw ffordd?

'Ydym ni'n ymdrechu o ddifri' mewn gweithredoedd duwiol?

Pa newidiadau sydd eu hangen?

Heb amheuaeth mae daear wedi'i glanhau yn dod

Ymegniwch i fod yno drwy gynnal safon glendid uchel Duw

Hyd yn oed os bydd eraill yn amau, gwyddom ni y daw (2Pedr 3:4, 13)

Adeiladwch eich ffydd drwy wybodaeth cynyddol, gweddi, a gweithgareddau Cristnogol

Byddwch yn benderfynol o fyw mewn ffordd sy'n dangos eich bod yn sicr y bydd daear wedi'i glanhau yma'n fuan

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)